Newyddlen Menter y Tŵr

Y TŴR PWLLHELI

Ebrill 2025

Ymweliad safle gan Arianwyr - Menter Môn a Cronfa Treftadaeth Bensaerniol Cymru (AHF)

Yn ddiweddar cafwyd ymweliadau gan rai o gyllidwyr Menter y Tŵr sef Cronfa Treftadaeth Bensaerniol (AHF) a Grymuso Gwynedd er mwyn gweld y cynnydd sydd yn mynd yn ei flaen. Ym mis Mawrth 2024, dyfarnodd yr AHF grant Datblygu Prosiect sydd wedi galluogi penodi tîm dylunio amlddisgyblaethol o dan arweiniad Pensaer Cadwraethol a cynhaliwyd archwiliadau strwythurol a datblygwyd cynlluniau pensaernïol i gwblhau Cam 4 RIBA. Dywedodd Adam Hitchings “Mae’n wych gweld y cynnydd ar y safle a safon uchel y gwaith o dan arweiniad Sion o gwmni adeiladu DR Williams.”
Arianodd Grymuso Gwynedd arwydd swing ac arwydd neon, toiled hygyrch yn ogystal ag Ymgynghoriad Credigol. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd archwilio a chofnodi atgofion trigolion y dref o bob oedran, ac annog trigolion i drafod a chofnodi drwy gelf, atgofion a gobeithion am Y Tŵr. Bydd mwy o wybodaeth am y Prosiect Celf yn fuan!

Adam Hitchings o’r AHF a Sion o’r cwmni adeiladu DR Williams yn edmygu y gwaith adnewyddu ffenestri.

AHF Transforming Heritage
www.ahfund.org.uk

MENTER MÔN

Arolygu’r gwaith sydd wedi’i gwblhu ar y to hyd yma.

Carys 'ar ben y Byd' wrth weld y gwaith adfer ar y to.

Diweddariad o'r gwaith ar yr adeilad

Erbyn hyn mae'r hen do wedi ei dynnu'n llwyr, a'r gwaith o ail doi wedi cychwyn ar y tu blaen a'r cefn. Mae'r to wedi ei insiwleiddio a'i orchuddio, a'r coed bach yn barod ar gyfer y llechi newydd.
Mae'r ffenestri to a dormer wedi eu gosod ac yn edrych yn wych.

Y to'n edrych yn dda a'r llechi newydd yn barod i'w gosod

Gwaith coed gorffenedig ar flaen yr adeilad

Landeri a gwteri newydd yn barod i'w gosod

Ffenestri gwydr dwbl a ffenestri Velux yn barod i'w gosod

Gwirfoddoli

Cofiwch mae digon o gyfleoedd i helpu gyda'r fenter. Cysylltwch á ni i drafod ymhellach drwy yrru neges i ytwrpwllheli@gmail.com neu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

Criw Y Twr x

www.ytwr .cymru

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government